

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 1af Fedi 2026

Croeso ac Ymddiheuriadau

Rhodddwyd croeso gan yr is-gadeirydd Elwyn Jones.

Ymddiheuriadau: Gareth W Griffiths, Rhian Evans Hill, Lowri James, Gareth Hughes, Emma Chappell

Presennol

Yn bresennol roedd Yr Is-gadeirydd, a'r Cyngorwyr Jane Pierce, Sasha Williams, Idris Thomas a Ellen George, Berwyn Parry Jones a Dewi Rhys Evans.

Gweddi

Rhodddwyd gair o weddi gan Idris Thomas.

Datgan Buddiant

Dim

Cyfethol Cynghorydd i Benisa'r-waun

Yn dilyn hysbyseb am sedd wag i gynrychioli'r pentref ar y Cyngor Cymuned, dim ond un a ddangosodd ddiddordeb, sef Dewi Rhys Evans.

Cynigiwyd felly ein bod yn ethol Dewi i sedd ar y Cyngor Cymuned.

Ellen George (1)

Idris Thomas (20)

Cytunwyd yn unfrydol. Croesawyd Dewi yn swyddogol gan yr is gadeirydd.

Cofnodion 5ed Gorffennaf 2026

Cafwyd y cofnodion yn gywir.

Jane Pierce (1)

Idris Thomas (2)

Materion o'r Cofnodion

Grant Gwynedd Ni

Diolch i Sasha am ei gwaith yn sicrhau'r grant yma. Byddwn yn derbyn 4 bwrdd gwybodaeth o enwau mynyddoedd i osod yn yr ysgolion, ynghyd a 3 mainc a Bwrdd rhyngweithiol symudol i yn ystafell gymunedol Ysgol Penisa'r-waun, yn benodol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor ac wrth gwrs unrhyw fudiad arall a fyddai angen o bryd i'w gilydd. Sasha a'r clerics i symud ymlaen i archebu.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Clybiau Ieuenctid

Derbyniwyd e-bost gan yr adran ieuenctid i nodi fod clwb Rhiwlas a Deiniolen wedi ei staffio, ond eu bod yn gobeithio cael llenwi'r bylchau ar gyfer arweinwyr yn y clwb ym Methel yn ystod mis Medi. Mae'r swyddi yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.

Awgrymwyd oherwydd hyn, fod y clwb yn peidio cychwyn tan nes bydd yr arweinwyr mewn swydd, ac wedi eu hyfforddi. Dylai hyn roi sefydlogrwydd i'r clwb o'r cychwyn. Hefyd gofynnwyd a oedd posib hysbysebu yn lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol, gan efallai byddai ambell riant gyda diddordeb.

Cynllunio

Dim ceisiadau

Llwybrau

Mae sawl llwybr ychwanegol wedi cael ei dorri gan y Cyngor eleni. Mae ein rhwydwaith yn anferth, ac er buasem yn hoffi gallu torri pob un, mae yn amhosib. Rydym dal yn trio canolbwyntio i wella'r llwybrau yn flynyddol, ac yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd I wneud hyn. Diolch I rai ohonoch sydd yn cysylltu am ddiffygion ar y llwybrau.

Cyfrifon ac Awdit

Awdit

Nododd y clerc fod swyddog o Archwiliadau Cymru wedi bod yn cysylltu, ond nid yw wedi clywed dim pellach ar hyn o bryd.

Cyfrifon

Cyflwynwyd mantolen 6 mis i'r corff, er mwyn gweld y sefyllfa ariannol. Popeth i weld myn ei le, a chymeradwyd a derbyn fod y cyfrifon hyd yn hyn y n gywir.

Cadarnhau Taliadau

Cyflwynwyd taflen gyda rhestr o daliadau i wneud am y mis. Cadarnhawyd yn unfryd a rhoddwyd caniatâd i'r clerc dalu'r cyfan.

O Gwmpas y Bwrdd

Safle Bws y Chwarelwyr yn Dinorwig

Mae'r adeilad yma yn hanesyddol, gan mai yma fyddai chwarelwyr yn disgwyl am y bws i fynd a nhw i fyny am y gwaith. Dros y blynyddoedd, mae'r adeilad wedi dirywio, serch hynny, mae yn nodwedd hanesyddol bwysig i'r ardal lechi yn Dinorwig. Y clerc i gysylltu eto gyda'r Amgueddfa Lechi am gais i'w atgyweirio, a'i dacluso cyn iddo waethygu ymhellach.

Pont Brynrefail

Eleni mae'r bont yn dathlu 200 mlwyddiant, ac mae yna ddigwyddiad bychan gan drigolion y pentref yn cael ei gynnal ar y 26ain o Fedi i nodi hyn.

Gordyfiant ffiniau'r lon a Thyddyn Teg

Rydym ni, ynghyd a sawl person annibynnol a chwmnïau bws wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r broblem yma. Mae gwir angen cael torri'r gordyfiant, gan ei fod yn effeithio bysiau, lorïau a cheir, ac yn beryg ar y ffordd, sydd yn ffordd sydd yn cael ei defnyddio yn aml iawn fel prif ffordd i Ysgol Uwchradd yr ardal. Y clerc i gysylltu unwaith eto a Chyngor Gwynedd.